SGILIAU BWYD CYMRU
FOOD SKILLS CYMRU

Astudiaeth Achos
Rhaglen Hyfforddiant Cynaliadwyedd

**Mae rhaglen Sgiliau Bwyd Cymru a ddarperir gan Lantra** yn cefnogi busnesau yn niwydiant prosesu a gweithgynhyrchu bwyd a diod Cymru i sicrhau bod gan weithwyr y sgiliau a'r hyfforddiant cywir ar gyfer eu busnes a'r diwydiant ehangach.

Mae datblygu cynaliadwy wrth wraidd ein deddfwriaeth sefydlu yng Nghymru ac i gefnogi Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei thargedau ar gynaliadwyedd, mae'r prosiect wedi gweithio ar y cyd â Cynnal Cymru ac EcoStudio i ddatblygu Rhaglen Hyfforddiant Cynaliadwyedd yn benodol ar gyfer y diwydiant gweithgynhyrchu bwyd a diod.

Pwrpas y cwrs hyfforddi yw rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i gyfranogwyr ddatblygu systemau a gweithredoedd sy'n briodol i'w sefyllfa sy'n mynd i'r afael â rheolaeth amgylcheddol, cynaliadwyedd ac effaith gymdeithasol.

Mae modiwlau 1-3 y rhaglen yn mynd i'r afael ag elfennau penodol o gynaliadwyedd gan gynnwys datgarboneiddio, dim gwastraff, cymorth i systemau naturiol, cyflogaeth deg a chyfrifol, lles cymdeithasol a staff, ac effaith gymunedol. Mae modiwlau 4-6 yn galluogi cyfranogwyr i ddatblygu eu strategaeth gynaliadwyedd bwrpasol eu hunain, gan integreiddio'r elfennau penodol i ddull cyfannol, hirdymor a fydd yn cyd-fynd â pholisi'r llywodraeth ar lefel Cymru a'r DU, sy'n cyd-fynd â strategaethau cynaliadwyedd corfforaethau mwy, ac yn apelio at gwsmeriaid. Mae'n ofynnol i bawb sy'n cymryd rhan gynhyrchu strategaeth o ddogfen gynaliadwy sy'n briodol i'w busnes erbyn diwedd y cwrs.

# Cradoc's Savoury Biscuits Ltd.




## Soniwch ychydig am Cradoc's Savory Biscuits Ltd.

Sefydlwyd Cradoc's gan Allie Thomas yn 2008 ar ôl iddi sylweddoli nad oedd y cracers a'r bisgedi ar ei bwrdd caws yn agos at ansawdd y caws yr oedd yn ei fwyta. Perswadiodd Allie ei merch Ella i'w helpu ac aethon nhw ati i bobi rhai eu hunain!

Cymerodd dair blynedd iddyn nhw sefydlu, yn gweithio o garej wedi'i haddasu yn eu gardd yn Aberhonddu ac yn gwerthu mewn marchnadoedd ffermwyr lleol. Yn yr amser maen nhw wedi bod yn gweithredu maen nhw wedi adeiladu tîm bach ond hynod effeithlon, sy'n cynnwys dau bobydd a dau baciwr craceri!

Mae cracers Cradoc's yn cael eu pobi â gwenith, gwenith cyflawn, a cheirch, yn ogystal â llawer o lysiau, ffrwythau, blodau, hadau, perlysiau a sbeisys. Mae eu detholiad o gracers a bisgedi yn rhydd o wyau, cnau, sesame ac olew palmwydd ac yn addas ar gyfer llysieuwyr. Maen nhw wedi dod yn fwyfwy adnabyddus, a bellach yn cael eu gwerthu mewn archfarchnadoedd, siopau delicatessen a thrwy siopau gwe ledled y wlad.

SGILIAU BWYD CYMRU
FOOD SKILLS CYMRU

Astudiaeth Achos

Rhaglen Hyfforddiant Cynaliadwyedd

# Cradoc's Savoury Biscuits Ltd.




## Beth yw eich ymrwymiad fel busnes i gynaliadwyedd?

Ein hamcan yw gallu cyflawni ein nod o ddod yn fusnes mwy cynaliadwy. Rydyn ni wedi ymrwymo i leihau ein heffaith amgylcheddol a gwella ein perfformiad amgylcheddol yn barhaus fel rhan o'n strategaeth fusnes a'n dulliau gweithredu.

Rydyn ni eisoes yn gwneud llawer o bethau da ond er mwyn dod yn fwy cynaliadwy, mae angen inni edrych ar beth arall y gallwn ei wneud. Rydyn ni wedi nodi nifer o gamau gweithredu rydyn ni am eu rhoi ar waith dros y flwyddyn nesaf fel lleihau gwastraff bwyd a diwydiannol 50 % erbyn 2023, yn ogystal â darparu gwasanaeth di-garbon net. Rydyn ni eisiau symud Cradoc ymlaen heb gyfrannu at yr argyfwng hinsawdd.

## Beth wnaeth i chi fel busnes benderfynu dilyn y Rhaglen Hyfforddiant Cynaliadwyedd a beth ydych chi wedi'i ddysgu ganddi?

Gwnaethon ni gydnabod ein cyfrifoldeb tuag at gynaliadwyedd beth amser yn ôl. Roedden ni wedi gwneud rhai strategaethau ond mewn gwirionedd doedden ni ddim yn gwybod beth oedden ni'n ei wneud gan nad oedd gennyn ni amser i gasglu'r wybodaeth ac astudio'r canllawiau na gosod hyn yn erbyn safbwyntiau byd-eang. Felly pan hysbysebwyd y cwrs gan Sgiliau Bwyd Cymru roedden ni wrth ein bodd gan mai dyna'n union oedd ei angen arnon ni.

SGILIAU BWYD CYMRU
FOOD SKILLS CYMRU

Astudiaeth Achos
Rhaglen Hyfforddiant Cynaliadwyedd

# Cradoc's Savoury Biscuits Ltd.

Wrth sôn am yr hyn a ddysgwyd wrth fynychu'r cwrs, dywedodd y sylfaenydd Allie Thomas:

**"Fe ddechreuon ni wir ddeall y darlun ehangach a chael gafael ar anferthedd y broblem, a'r canlyniadau enbyd y mae'n eu cael ar y busnes ac yn enwedig yr amgylchedd… roedden ni'n teimlo'r angen i weithredu'n gyflym a chyflawni'r camau rydyn ni wedi penderfynu canolbwyntio arnyn nhw yn y busnes."**



## Pa wahaniaeth mae'r Rhaglen Hyfforddiant Cynaliadwyedd wedi'i wneud i'r busnes?

Mae Cradoc's yn ei gyfanrwydd yn fwy ymwybodol o'r problemau erchyll sy'n ein hwynebu ac rydyn ni eisoes yn datblygu gweithgareddau newydd yn y gweithle ac yn gofyn am fwy o gyfraniadau corfforol i ddatrys ein problemau lleol. Rydyn ni'n cydnabod y gallwn wneud rhai newidiadau yn hawdd a bod y camau a nodwyd gennyn ni'n gwneud synnwyr busnes yn ogystal â chefnogi adferiad ein hamgylchedd.

Mae gennyn ni lawer i'w wneud o hyd yn y misoedd nesaf i fodloni ein cynllun gweithredu ar reoli'r amgylchedd ac effaith gymdeithasol, ond rydyn ni'n gobeithio y bydd rhywfaint o'r hyfforddiant ailgylchu yn cael ei roi ar waith yn yr wythnosau nesaf.

Ychwanegodd Allie ymhellach:

**"Dylai pob busnes ddilyn yr hyfforddiant hwn, mae mor effeithiol. Gwnaeth pob un o'r cyfranogwyr ymdrech wirioneddol i gyfrannu, a oedd yn hynod galonogol a galluogol. Roedden ni i gyd eisiau gwneud yr hyn a allwn i ddechrau ac annog eraill i weld pa gamau y gallent eu cymryd i gymryd rhan yn yr ymdrech fyd-eang."**

**www.cradocssavourybiscuits.co.uk**

**Mae cyllid ar gael i gefnogi ein Rhaglen Hyfforddiant Cynaliadwyedd, ynghyd â llu o gyrsiau hyfforddi eraill. Yn gyntaf bydd busnesau bwyd a diod cymwys yn cwblhau Diagnostig Sgiliau gydag aelod o'n tîm sy'n helpu busnesau i nodi a blaenoriaethu anghenion hyfforddi. Os oes gennych ddiddordeb mewn rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni heddiw.**

## Am ragor o wybodaeth am Sgiliau Bwyd Cymru cysylltwch â Lantra

**www.sgiliaubwyd.cymru  wales@lantra.co.uk**
**Ffôn: 01982 552646**